# Annwyl riant neu ofalwr,

Heddiw fe gynhaliom Beep Beep! Day gydag Amser Timmy i gefnogi Brake, yr elusen diogelwch ffyrdd. I ddysgu rhagor am eu gwaith, ewch i www.brake.org.uk.

Mae Beep Beep! Day yn ffordd wych i ni siarad am ddiogelwch ar y ffyrdd a chodi arian i helpu Brake i ymgyrchu dros ffyrdd mwy diogel a chefnogi teuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan ddamweiniau ffyrdd.

BEEP BEEP! DAY WITH TIMMY TIME™ saving little lives

Trefnwyd gan

Brake the road safety charity

Prif nod Beep Beep! Day yw helpu plant i ddechrau dysgu hanfodion diogelwch ar y ffyrdd trwy weithgareddau hwyliog, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni a'r gymuned leol am amddiffyn plant ar y ffyrdd.

Heddiw buom yn siarad â'r plant am gadw'n ddiogel ar y ffyrdd a rhoi negeseuon sylfaenol iddynt am beryglon traffig. Yn benodol, buom yn siarad am bwysigrwydd plant yn dal dwylo gydag oedolyn wrth gerdded wrth ymyl ffyrdd i helpu i'w cadw'n ddiogel. Buom hefyd yn siarad am sut i groesi ffyrdd yn ddiogel gydag oedolyn.

**Ar gyfartaledd, mae naw o blant yn cael eu lladd neu eu hanafu ar ffyrdd ym Mhrydain bob dydd.**[1] Rydym yn gwneud ein rhan i geisio sicrhau nad yw hyn byth yn digwydd yn ein cymuned. Helpwch ni drwy oruchwylio'ch plentyn wrth ymyl y ffyrdd a'i helpu i ddysgu am ddiogelwch ar y ffyrdd.

Rydym hefyd yn annog plant i ddod yn hyrwyddwyr diogelwch ar y ffyrdd ac i ddefnyddio 'pŵer swnian' i ofyn i oedolion helpu i'w cadw'n ddiogel ar y ffyrdd.

Mae'ch plentyn wedi ysgrifennu cerdyn post atoch yn gofyn i chi helpu i'w gadw'n ddiogel. Maent yn gofyn i chi:

- dal eu llaw wrth gerdded wrth ymyl ffyrdd bob amser
- dod o hyd i le diogel i groesi'r ffordd bob amser
- dangos iddynt sut i gadw llygad am draffig drwy ddefnyddio Rheolau'r Groes Werdd
- cerdded ar y palmant neu'r llwybr troed bob amser

Siaradwch â'ch plentyn am y negeseuon ar eu cerdyn post, ac arddangoswch eu gwaith celf yn falch i ddangos iddynt eich bod yn deall pwysigrwydd eu cadw'n ddiogel wrth ymyl ffyrdd.



**Ni ddylai unrhyw un gael ei frifo ar y ffyrdd a dylai pob plentyn allu cerdded a beicio'n ddiogel yn eu cymuned. Gobeithio bod gennych chi balmentydd a mannau croesi diogel a therfyn cyflymder 20mya lle rydych chi'n byw. Os nad, yna mae'n syniad da ymgyrchu dros newid i gadw'ch teulu ac eraill yn ddiogel.**

**Llawer o ddiolch am gefnogi ein Beep Beep! Day.**

Cofion cynnes

**Dysgu rhagor am Beep Beep! Days yn www.brake.org.uk/beep**

1. Department for Transport (2025) Reported road casualties Great Britain, annual report: 2024 and supporting data sets

© Aardman Animations LTD 2026 / © Brake 2026